



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Y Rhos

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022 gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol y Rhos

Mae Ysgol y Rhos wedi'i lleoli ar dir dau gyn lety gwyliau mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug. Mae'r perchennog, Unique Care Homes Ltd., yn rheoli pum cartref i blant yn Wrecsam a Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer 16 o ddisgyblion rhwng 8 ac 16 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan lawer o'r plant hanes o leoliadau'n methu a chael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd.

Mae pum disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn byw yng nghartrefi gofal y cwmni. Caiff llawer o'r plant eu lleoli gan awdurdodau yng ngogledd Cymru, gan gynnwys Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddisgyblion sydd wedi'u lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Daw ychydig o'r disgyblion o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith ac maent wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn flaenorol.

Agorodd yr ysgol ym mis Ionawr 2019 ac mae'n cyflogi pump o athrawon parhaol, amser llawn, gan gynnwys y pennaeth. Bu'r pennaeth yn y swydd er mis Medi 2022.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Ers eu penodi eleni, mae'r pennaeth a'r staff wedi datblygu cydweledigaeth ar gyfer yr ysgol yn gyflym.

Dros gyfnod cymharol fyr, mae'r staff wedi meithrin perthnasoedd priodol â disgyblion ac, yn gyffredinol, maent yn eu cynorthwyo i ymgysylltu'n dda â'u dysgu.

Mae'r ysgol yn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae arddangosfeydd ar y waliau, er enghraifft, yn dathlu gwaith disgyblion â balchder.

Mae'r pennaeth yn datblygu diwylliant o fyfyrion a gwella ac yn cryfhau systemau a gweithdrefnau yn yr ysgol. Fodd bynnag, oherwydd pa mor ddiweddar y cafodd ei phenodi, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.

Meysydd i'w datblygu

Am yr ail flwyddyn yn olynol, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae'r ysgol yn defnyddio fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac mae'r staff yn ymgysylltu'n dda â chynllunio'r meysydd dysgu maent yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, nid yw cynllunio systematig i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau athrawon yn y meysydd hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o asesiadau safonol defnyddiol i sefydlu gwybodaeth sylfaen am allu cyfredol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd systematig o'r wybodaeth hon i lywio cynllunio wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni'n rhoi cyfrif defnyddiol o gynnydd cyffredinol mewn pynciau. Fodd bynnag, nid ydynt yn datgan cynnydd disgwylidig disgyblion yn glir yn erbyn eu manau cychwyn hysbys.

Mae staff addysgu yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac addysgiadol i ddisgyblion ar eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig yn amlinellu'r camau nesaf mewn dysgu yn ddigon da bob tro.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003
- A2 Sicrhau bod yr holl staff addysgu yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ar gyfer y meysydd dysgu maent yn gyfrifol amdanynt
- A3 Defnyddio gwybodaeth sylfaen yn well i gynllunio darpariaeth a monitro'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion
- A4 Parhau i fireinio a chryfhau systemau i werthuso gwaith yr ysgol a'i gwasanaethau

Cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

A1. Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol yn erbyn y meysydd lle y nodwyd diffyg cydymffurfio ar y pryd. Er enghraifft, mae wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod adnoddau yn yr ystafell ddosbarth o ansawdd, nifer ac ystod ddigonol ac y cânt eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi'u dodrefnu'n briodol ac yn cynnwys addasiadau addas ar gyfer pynciau arbenigol, fel celf a gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i sicrhau y caiff staff eu defnyddio i sicrhau y caiff disgyblion eu goruchwyllo'n briodol.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod yr ystafelloedd dosbarth o faint priodol i ganiatáu addysgu effeithiol, nad yw'n niweidio iechyd neu ddiogelwch gan ystyried nifer, oed ac anghenion (gan gynnwys anghenion addysgol arbennig) disgyblion.

Yn ogystal, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i sicrhau, pan gaiff bwyd ei weini, bod cyfleusterau digonol i'w baratoi, ei weini a'i fwyta mewn modd hylan.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i sicrhau y caiff yr ystafelloedd dosbarth a rhannau eraill o'r ysgol eu cynnal a chadw mewn cyflwr taclus, glân a hylan. Mae'r ysgol hefyd wedi sicrhau bod y dodrefn a'r ffitiadau wedi'u dylunio'n briodol ar gyfer oed ac anghenion (gan gynnwys anghenion addysgol arbennig) y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol.

Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad hwn, nododd arolygwyr ragor o achosion o ddiffyg cydymffurfio dan Safon 1 a Safon 6. O ganlyniad, am yr ail flwyddyn yn olynol, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

A2. Darparu gofod ac adnoddau priodol i gefnogi addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm

Ers ymweliad adroddiad blynyddol Estyn ym mis Medi 2021, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol tuag at fodloni'r argymhelliad hwn. Mae'r ysgol wedi nodi a datblygu manau addysgu ac adnoddau arbenigol addas i wella addysgu a phrofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys llyfrgell, dau le dysgu ychwanegol, cegin, ardal fyfyrion a man dysgu annibynnol bach. O ganlyniad, mae disgyblion yn manteisio ar agweddau amrywiol ar y cwricwlwm mewn amgylchedd dysgu mwy priodol ac ysgogol. Mae'r ardaloedd dynodedig hyn yn datblygu medrau annibyniaeth disgyblion yn dda hefyd ac yn cefnogi eu hanghenion emosiynol yn llwyddiannus.

A3. Sicrhau bod staff cymorth yn meddu ar fedrau a hyfforddiant addas i fodloni anghenion dysgu disgyblion

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r ysgol bellach yn ymwybodol o'r aelodau hynny o'r staff cymorth sydd â chymhwyster perthnasol i gynorthwyyr addysgu hefyd. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddefnyddio staff i gefnogi dysgu disgyblion yn fwy priodol.

A4. Cryfhau'r defnydd o asesiadau ac ymyriadau therapiwtig i lywio'r modd y mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm

Celf yw'r prif therapi a ddarperir gan yr ysgol. Fel rhan o'u gwaith â disgyblion unigol, mae therapyddion yn ymgymryd ag ystod o asesiadau â nhw. Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r therapyddion wedi'i gryfhau gan drafodaethau mwy agored a rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae'r wybodaeth o'r gyfres o asesiadau'n cael ei defnyddio i lywio cynlluniau athrawon yn y camau datblygu cynnar. At ei gilydd, nid yw effaith therapi ar les a chyflawniad disgyblion yn ddigon clir.

A5. Sicrhau arweinyddiaeth effeithiol yn yr ysgol

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r ysgol wedi penodi pennaeth a dirprwy bennaeth parhaol. Dechreuodd y ddau uwch arweinydd a gweddill y staff addysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r pennaeth a'r staff wedi datblygu cydweledigaeth ar gyfer yr ysgol ac yn dechrau gweithio fel tîm cydlynus, lle maent yn nodi blaenoriaethau datblygu, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau ag ysgol arbennig annibynnol gyfagos ac mae'r pennaeth yn elwa ar y cymorth a ddarperir gan yr ysgol. Fodd bynnag, oherwydd pa mor ddiweddar y gwnaed y penodiadau hyn, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r holl waith hwn.

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau lle mae gan ddisgyblion ddatganiad [o anghenion addysgol arbennig], bod yr addysg a ddarperir yn bodloni gofynion y datganiad. 1 [2] [e]

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau y caiff gwybodaeth ei darparu ynghylch manylion darpariaeth addysgol a lles i ddisgyblion â datganiadau [o anghenion addysgol arbennig] a'r disgyblion hynny y mae'r Gymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt 6 [2] [f] a
- sicrhau y caiff gwybodaeth ei darparu am y drefn gwyno a fabwysiadwyd gan yr ysgol, a threfnu bod manylion ar gael am nifer y cwynion a gofrestrwyd dan y weithdrefn ffurfiol yn ystod y flwyddyn flaenorol 6 [2] [j]

Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 7.

Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2023